# Canllawiau mewn perthynas ag Atgyfeiriadau Cyn-Geni a Chynadleddau Amddiffyn Plant

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg | Dyddiad: Rhagfyr 2020 | Statws: Cymeradwywyd |
| Awdur: J Evans/ J Eyre | Fersiwn blaenorol: Rhagfyr 2018 | Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2023 |

Dylai'r gweithiwr proffesiynol perthnasol atgyfeirio pryderon am y risg o gam-drin, esgeuluso a niwed i blentyn yn y groth i'r Gwasanaethau i Blant drwy'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) ar gyfer Awdurdodau Lleol RhCT a Merthyr Tudful, a thrwy MASH Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer yr Awdurdod Lleol hwnnw, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Rhaid i weithwyr proffesiynol ystyried pob plentyn yn y teulu yn rhan o'r broses atgyfeirio ac yn unol â'r canllawiau atgyfeirio perthnasol gan ddefnyddio prosesau atgyfeirio wedi'u sefydlu, yn unol â'r ddyletswydd i adrodd a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Mae'r canllawiau canlynol yn nodi sut i reoli atgyfeiriadau sy'n ymwneud â phlentyn yn y groth:

### Atgyfeirio

Fel rheol, bydd atgyfeiriadau o'r Gwasanaethau Bydwreigiaeth yn digwydd pan fydd y gwasanaeth hwnnw'n effro i'r ffaith fod angen cynnwys y Gwasanaethau i Blant o bosib.

Ar ôl derbyn atgyfeiriad, mae modd cynnal asesiad yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y peth mwyaf priodol i'r fam feichiog ar yr adeg yma fyddai iddi dderbyn gwasanaethau anstatudol o bosib. Rhaid cael cydsyniad ar gyfer hyn. Os na fydd y fam yn rhoi cydsyniad a bydd pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant, bydd gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu gweithredu. Mae'n bosibl bydd asesiadau perthnasol gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o ofal y fam a'r plentyn yn y groth. Bydd yr asesiadau yma'n llywio'r asesiad mewn modd cymesur sy'n hanfodol o ran gwneud penderfyniad cyn i'r plentyn gael ei eni.

Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol a gwaith cymdeithasol geisio gwybodaeth am y tad ym mhob asesiad o fenywod beichiog. Dylai gweithwyr proffesiynol wneud pob ymdrech i gynnwys y tad ac ennyn eu diddordebau yn rhan o asesiadau. Pan gaiff risgiau eu nodi, dylid defnyddio chwilfrydedd proffesiynol i geisio gwybodaeth gan gysylltiadau'r unigolion dan sylw wrth geisio cadarnhau ffeithiau pan fydd rhieni'n darparu gwybodaeth. Dylid nodi a dadansoddi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a'u heffaith bosibl ar rieni a'u gallu i fagu plant yn rhan o'r asesiad.

### Trafodaeth/Cyfarfod Strategaeth

Bydd y drafodaeth/cyfarfod strategaeth yn cael ei chynnal/gynnal yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Bydd y drafodaeth/cyfarfod strategaeth yn cael ei threfnu/drefnu er mwyn i'r fydwraig (drwy gynhadledd dros y ffôn) ac asiantaethau allweddol eraill (ymwelydd iechyd os oes plant ifainc yn y teulu) fod yn rhan o broses rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a llywio trafodaethau.

### Cynhadledd Amddiffyn Plant

Yn y rhan fwyaf o achosion, yr amser mwyaf addas i gynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant fydd yn ystod y cyfnod beichiogrwydd rhwng 24 a 28 wythnos.

Serch hynny, os bydd pryderon o safbwynt amddiffyn plant ac mae gweithiwr proffesiynol o'r farn y bydd angen cynnal trafodaeth/cynhadledd yn gynt, bydd modd ystyried cynnal un i benderfynu a ddylai'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol gael ei chynnal cyn cyfnod beichiogrwydd o 24 wythnos (hyfywdra).

Amcan y Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol ar gyfer plentyn yn y groth yw penderfynu a ddylai enw'r plentyn gael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl iddo gael ei eni. Amcan arall yw datblygu cynllun i leihau'r risgiau.

Bydd cadeiryddion Cynadleddau Amddiffyn Plant yn sicrhau y bydd cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant yn cael ei gwblhau os bydd enw plentyn yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Bydd cynllun cyn-geni yn cael ei lunio yn y grŵp craidd cyntaf gyda'r Fydwraig Gymunedol ac asiantaethau allweddol eraill.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn sicrhau bod y cynllun cyn-geni cyntaf ar gael i'r Gwasanaethau Mamolaeth (sef bydwragedd materion diogelu, y ward esgor, y fydwraig gymunedol), Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau a'r Heddlu cyn cyfnod beichiogrwydd o 32 wythnos. Os bydd pryderon diogelu ar ôl cyfnod beichiogrwydd o 32 wythnos (e.e. beichiogrwydd wedi'i guddio), bydd cynllun geni ar gael i'r Gwasanaethau Mamolaeth cyn gynted ag y bo modd ac mewn pryd i adlewyrchu'r risg i'r fam neu'r babi.

Rhaid i'r Fydwraig Ddiogelu wedi'i henwi (neu'r dirprwy) roi gwybod i Garfan Diogelu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) am bryderon sy'n gofyn am gamau gweithredu penodol gan WAST.

Os bydd angen diweddaru'r cynllun cyn-geni cychwynnol, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn anfon y cynllun wedi'i ddiweddaru i'r asiantaethau uchod, gan nodi fersiwn 2 a'r dyddiad arno.

Os bydd atgyfeiriad yn dod i law mewn perthynas â phlentyn yn y groth ac mae plant eraill y teulu ar y gofrestru amddiffyn plant, bydd modd cynnwys y gynhadledd gychwynnol ar gyfer y plentyn yn y groth yn rhan o drefniant cynhadledd adolygu presennol ar gyfer y brodyr a'r chwiorydd. Serch hynny, mae modd cynnal cynadleddau cychwynnol y tu allan i'r amserlen fwyaf addas yma.

Rhaid i'r Fydwraig sy'n gyfrifol am y geni/y Gwasanaethau Bydwreigiaeth sicrhau bod y Gwasanaethau i Blant yn cael gwybod cyn gynted â phosibl yn y cyfnod yn syth ar ôl y geni, a hynny er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau cofrestru amddiffyn plant yn cael eu gweithredu. Pan fydd y gweithiwr cymdeithasol yn cael gwybod am eni'r babi, bydd yn trefnu cyfarfod cynllunio cyn i'r fam/babi gael eu rhyddhau o'r ysbyty o fewn y 24 awr nesaf neu cyn gynted ag y bo modd.

Dylid ystyried a ddylid rhoi gwybod i'r heddlu os yw'n debygol y bydd y plentyn yn cael ei symud gan y rhiant/rhieni. Gall yr heddlu ddefnyddio eu Pwerau Amddiffyn os yw'r plentyn yn debygol o ddioddef niwed sylweddol.

Os na fydd rhesymau clinigol neu gyfreithiol (e.e. wrthi'n aros am achos llys) i aros yn y lleoliad mamolaeth acíwt, bydd mamau a babanod yn barod i'w rhyddhau o'r ysbyty. Rhaid i bob cynllun cyn-geni nodi rolau a chyfrifoldebau asiantaethau ar ôl i'r fam a'r babi gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Bydd y Gwasanaethau Mamolaeth yn darparu ymweliadau ôl-enedigol yn unol â chanllawiau ôl-enedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (angen clinigol y fam neu'r babi).

**Canllawiau Perthnasol**

Cafodd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 eu newid i Weithdrefnau Diogelu Cymru yn 2019.

**<u>Canllawiau Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Cynllun Cyn-Geni (Atodiad 1 a 2):</u>**

- Dylid paratoi cynllun cyn-geni o fewn y terfyn amser o 32 wythnos ym mhob achos lle y bo hynny'n ymarferol. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r cynllun cyn-geni a dylid ystyried yr holl risgiau hysbys.
- Bydd raid i'r cynllun cyn-geni gynnwys gwybodaeth ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth acíwt a chymunedol i lywio'r gofal ar gyfer y fam a'r babi cyn ac ar ôl i'r babi gael ei eni (mae ffeiliau diogelu yn cael eu cadw gan y Gwasanaethau Cymuned gan fod menywod yn cario nodiadau eu cyfnod mamolaeth).

  ***Nodwch: bydd angen trafod ac ystyried unrhyw gyfyngiadau o ran lleoliad y geni gyda'r fydwraig yn y cyfarfod grŵp craidd cyntaf, er enghraifft pe hoffai cleient geni'r babi gartref. Mae'n bosibl y bydd angen cyngor cyfreithiol.***

- Cyfyngiadau ymweld, pryderon diogelwch: rhaid nodi gwybodaeth i sicrhau diogelwch y fam a'r plentyn/babi yn y groth a pha gynlluniau sy wedi cael eu rhannu gyda'r unigolyn dan sylw e.e. dim hawl cael mynediad ac ati.
- Fydd dim modd i'r Gwasanaethau Mamolaeth oruchwylio'r fam a'r babi ar sail bersonol. Mewn achosion lle bydd anghenion cymhleth e.e. angen goruchwylio'r fam yn barhaus wrth ofalu am y babi yn yr ysbyty, bydd angen trefnu cyfarfod rhwng y fydwraig gymunedol, yr uwch-fydwraig o ran materion amddiffyn plant, y gweithiwr cymdeithasol, rheolwr carfan y gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw asiantaeth berthnasol arall i drafod darpariaeth goruchwylwyr a chytuno arni yn rhan o'r cynllun cyn-geni.
- Mae gofyniad i drefnu cyfarfod cynllunio cyn gadael yr ysbyty ar gyfer yr holl fabanod sydd newydd gael eu geni ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant o oed geni.
- Os bydd yr achos yn nodi risg o beidio â defnyddio'r Gwasanaethau Mamolaeth neu risg o ffoi, caiff y gweithiwr cymdeithasol ofyn i'r Gwasanaethau Mamolaeth rannu cynllun cyn-geni â Byrddau Iechyd ledled Cymru neu ag Ymddiriedolaethau Ysbytai penodol yn y DU sydd

wedi'u nodi. Os bydd angen rhybudd cenedlaethol ledled y DU, rhaid trefnu hwn trwy Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Rhaid i'r gweithiwr allweddol rannu copi o'r cynllun gofal a chymorth â'r Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Cwm Taf Morgannwg Bwrdd Diogelu Safeguarding Board

## ATODIAD 1

**Cynllun Cyn-Geni**
(I'w gwblhau ac i fod ar gael i'r Gwasanaethau Mamolaeth erbyn cyfnod beichiogrwydd o 32 wythnos)

**Plentyn i'w eni i** **Dyddiad Disgwyl Arfaethedig**
**Enw llawn y fam**
**Cyfeiriad,**
**Dyddiad Geni**

**Crynodeb o rôl y Gwasanaethau i Blant**
**(Tynnu sylw at Risgiau/Pryderon):**

-

| | **Cynllun Gofal wedi'i gytuno** |
|---|---|
| **Statws Cyfreithiol** | |

| | |
|---|---|
| **Cyn-geni** | Gwasanaethau i Blant i gael gwybod am achosion o'r fam yn mynd i mewn i'r ysbyty / yn cael ei rhyddhau yn ystod y cyfnod cyn-geni.<br><br>Gweithiwr Cymdeithasol: |
| **Cynllun ar gyfer lleoliad y geni** | Uwch weithiwr proffesiynol ar gyfer Gofal Cyn-geni:<br><br>Lleoliad arfaethedig y geni: |
| **Y Gweithlu** | Gwasanaethau i Blant i gael gwybod am yr enedigaeth:<br><br>Gweithiwr cymdeithasol:<br>Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau (y tu allan i oriau):<br><br>*I'w gwblhau gan y fydwraig sy'n goruchwylio'r esgor:*<br>Gwasanaethau i Blant wedi cael gwybod am yr enedigaeth:<br><br>Dyddiad:<br><br>Amser:<br><br>Enw'r Fydwraig:<br><br>Llofnod: |
| **Ar ôl geni** | **<u>Cyngor ar ôl geni</u>**<br><br>**Rhoi taflen "Lleihau'r risg o farwolaeth y crud" (Llywodraeth Cymru) a thrafod a sicrhau bod rhieni yn deall pwysigrwydd trefniadau cysgu diogel. Nodi yng nghynllun gofal mamolaeth.**<br><br>**Cyflwyno DVD "Atal Anafiadau Bwriadol i'r Pen" (Elusen NSPCC) a dilyn llwybr Anafiadau Bwriadol i'r Pen (NAHI). Nodi a yw'r rhieni wedi gwylio'r DVD, neu wedi gwrthod (gan gynnwys y rhesymau dros wrthod) yng nghynllun gofal mamolaeth a chofnodion newyddenedigol.** |

| | |
|---|---|
| **Ymweliadau** | |
| **Diogelwch** | Yn unol â chanllawiau diogelwch yr ysbyty:<br><br>Rhoi band adnabod ar y babi ar ôl iddo gael ei eni. Clymu tag diogelwch i'r babi wrth iddo gyrraedd y ward ar ôl geni.<br><br>**Mam/rhieni i gael gwybod am eu cyfrifoldeb i gadw'r babi yn ddiogel. (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf)** |
| **Arsylwi sgiliau rhianta** | Gwasanaethau Bydwreigiaeth a staff y Gwasanaethau Mamolaeth i gefnogi, monitro a nodi'r ffordd mae rhieni yn ymddwyn o gwmpas y babi ac yn rhoi gofal i'r babi yn y cofnodion mamolaeth.<br><br>Rhoi gwybod i'r Gwasanaethau i Blant am unrhyw bryderon ynglŷn â sgiliau/gallu rhianta. |
| **Cyfarfod cynllunio cyn rhyddhau'r babi/y fam o'r ysbyty** | **Peidio â rhyddhau'r babi o'r uned famolaeth nes bod cyfarfod cynllunio cyn rhyddhau'r babi o'r ysbyty yn cael ei gynnal, neu nes eich bod chi'n cael cyfarwyddyd gan y Gwasanaethau i Blant.** |

**Manylion cyswllt allweddol:**

| | Enw | Rhif ffôn |
|---|---|---|
| Gweithiwr Cymdeithasol: | | |
| Bydwraig Gymunedol: | | |
| Bydwraig Ddiogelu: | Fiona James | 07388950232 |
| Ymwelydd Iechyd: | | |

**Cynllun geni wedi'i gwblhau gan:**

| | Enw | Rhif ffôn |
|---|---|---|
| Gweithiwr Cymdeithasol: | | |

Fersiwn:

**Dyddiad:**

**ATODIAD 2**

## Canllawiau ar gyfer cwblhau Cynllun Cyn-Geni

## Canllawiau ac esboniad ar gyfer pob adran

**Cynllun Cyn-Geni**

(I'w gwblhau ac i fod ar gael i'r Gwasanaethau Mamolaeth erbyn cyfnod beichiogrwydd o 32 wythnos)

Sicrhau y bydd gwybodaeth yn cael ei chadw ar y ward esgor a gan y Gwasanaethau Bydwreigiaeth gymunedol

**Yn y groth.........**

Rhaid i bob babi gael ei adnabod fel plentyn â chyfenw'r fam yn rhan o'r Gwasanaethau Mamolaeth

**Dyddiad disgwyl arfaethedig (EDD)**

Rhaid diweddaru'r cynllun cyn-geni gyda newidiadau o ran y dyddiad disgwyl arfaethedig

**Enw llawn y Fam, Cyfeiriad, Dyddiad geni**

Rhaid nodi manylion uchod y fam ar y cynllun cyn-geni yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer adnabod cleientiaid.
(Mae manylion y fam ar systemau TG pob Bwrdd Iechyd)

**Crynodeb o rôl y Gwasanaethau i Blant**
**(Tynnu sylw at Risgiau/Pryderon):**
Bydd angen crynodeb o'r achos i roi gwybod i'r Gwasanaethau Mamolaeth acíwt am y pryderon/risgiau i'r fam a'r babi.

(Bydd cofnodion mamolaeth yn cael eu cadw gan y mamau ac mae ffeil lawn yr achos diogelu yn cael ei chadw gan y Gwasanaethau Cymuned).

| | **Cynllun Gofal wedi'i gytuno** |
|---|---|
| **Statws Cyfreithiol** | Cofiwch gynnwys:<br><br>**Amddiffyn Plant**<br><br>Dyddiad Cynhadledd yr Achos<br><br>Deilliant y gynhadledd/Categori<br><br>Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)<br><br>**Cynllun Gofal a Chymorth** |
| **Cyn-geni** | Gwasanaethau i Blant i gael gwybod am achosion o'r fam yn mynd i mewn i'r ysbyty / yn cael ei rhyddhau yn ystod y cyfnod cyn-geni.<br><br>Gweithiwr cymdeithasol:<br><br>**Rhaid cynnwys:**<br>Unrhyw gyfyngiadau o ran ymwelwyr e.e. unigolion sydd wedi cyflawni cam-drin domestig, babi ar ward gymysg gyda babanod eraill, ac ati.<br><br>Nodwch enwau'r unigolion a'u perthynas â'r fam<br><br>Unrhyw bryderon eraill mae angen i staff y Gwasanaethau Mamolaeth fod yn effro iddyn nhw |
| **Cynllun ar gyfer lleoliad y geni** | *I'w drafod gyda'r fydwraig gymunedol:*<br>Uwch-weithiwr proffesiynol ar gyfer Gofal Cyn-geni:<br>Bydd hyn yn cael ei asesu ar sail hanes obstetrig/meddygol:<br>Risg Isel = Gofal wedi'i arwain gan Fydwragedd<br>Risg Uchel = Gofal wedi'i arwain gan Ymgynghorwyr<br><br>Lleoliad arfaethedig y geni:<br>Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mae gan fenywod beichiog 5 opsiwn o ran lleoliad y geni:<br>1. **Gartref**<br>2. **Canolfan Geni annibynnol Tirion - uned dan arweiniad bydwragedd (mewn lleoliad tawel, hamddenol) yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg** |

| | |
|---|---|
| | 3. **Canolfan Geni Ochr yn Ochr Tair Afon yn Ysbyty'r Tywysog Siarl**<br>4. **Uned obstetreg yn Ysbyty Tywysoges Cymru**<br>5. **Uned obstetreg yn Ysbyty'r Tywysog Siarl**<br><br>***Os bydd unrhyw bryderon diogelu o ran lleoliad arfaethedig y geni e.e. genedigaeth gartref, bydd angen trafod y pryderon yma/ceisio cyngor cyfreithiol i lywio'r cynllun cyn geni.***<br><br>Cymorth geni wedi'i gynllunio<br>Mae gyda phob menyw yr hawl i ddewis yr unigolion fydd yn ei chefnogi hi yn ystod yr esgor.<br><br>Os bydd gyda'r Gwasanaethau i Blant bryderon arwyddocaol am y tad/partner sy'n golygu y bydd raid ei oruchwylio ar sail unigol ar ôl y geni, caiff y partner aros am 1 awr ar ôl geni'r o dan oruchwyliaeth staff yr ysbyty. Yna, bydd angen iddo adael.<br><br>Fydd dim modd i'r Gwasanaethau Mamolaeth oruchwylio'r fam a'r babi ar sail unigol. Mewn achosion lle bydd anghenion cymhleth e.e. angen goruchwyliaeth barhaus o'r fam wrth ofalu am y babi yn yr ysbyty, bydd angen trefnu cyfarfod cynnar rhwng y fydwraig gymunedol, yr uwch-fydwraig sydd â chyfrifoldeb dros faterion amddiffyn plant, y gweithiwr cymdeithasol a rheolwr carfan y gweithiwr cymdeithasol i drafod darpariaeth goruchwylio'r Gwasanaethau i Blant yn rhan o'r cynllun cyn-geni. Rhaid rhannu'r cynlluniau yma gyda'r tad/partner cyn y geni. |
| **Y Gweithlu** | Gwasanaethau i Blant i gael gwybod am yr enedigaeth:<br><br>Gweithiwr Cymdeithasol:<br>Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau (y tu allan i oriau):<br><br>*I'w gwblhau gan y fydwraig sy'n goruchwylio'r esgor:*<br>Gwasanaethau i Blant wedi cael gwybod am yr enedigaeth:<br><br>Dyddiad:<br><br>Amser:<br><br>Enw'r Fydwraig:<br><br>Llofnod: |

| | |
|---|---|
| **Ar ôl geni** | Mae gyda ni wardiau â chwe gwely ac ystafelloedd sengl yn yr ysbyty. Rhowch wybod:<br><br>• os bydd angen i'r fam a'r babi aros ar y brif ward **NID** mewn ystafell sengl<br>• os caiff y fam a'r babi aros mewn ystafell sengl, os ydy'r fam eisiau gwneud hynny.<br><br>**Mamau Beichiog sy'n Camddefnyddio Sylweddau:**<br>O ganlyniad i hanes y fam o gamddefnyddio sylweddau, bydd angen i'r babi gael sgôr mewn perthynas â'i allu i ymwrthod â sylweddau (Neonatal Abstinence Scoring).<br><br>**<u>Cyngor ar ôl Geni</u>**<br><br>**Rhoi taflen "Lleihau'r risg o farwolaeth y crud" (Llywodraeth Cymru) a thrafod a sicrhau bod rhieni yn deall pwysigrwydd trefniadau cysgu diogel. Nodi yng nghynllun gofal mamolaeth.**<br><br>**Cyflwyno DVD "Atal Anafiadau Bwriadol i'r Pen" (Elusen NSPCC) a dilyn llwybr Anafiadau Bwriadol i'r Pen (NAHI). Nodi a yw'r rhieni wedi gwylio'r DVD, neu wedi gwrthod (gan gynnwys y rhesymau dros wrthod) yng nghynllun gofal mamolaeth a chofnodion newyddenedigol.** |
| **Ymweliadau** | **Ymweliadau**<br>Unrhyw gyfyngiadau o ran ymwelwyr e.e. unigolion sydd wedi cyflawni cam-drin domestig, babi ar ward gymysg gyda babanod eraill, ac ati.<br><br>Nodwch enwau'r unigolion a'u perthynas â'r fam<br><br>Unrhyw bryderon eraill mae angen i staff y Gwasanaethau Mamolaeth fod yn effro iddyn nhw<br><br>Os bydd gyda'r Gwasanaethau i Blant bryderon sylweddol am y fam a/neu'r babi neu staff yr ysbyty, bydd raid rhannu'r pryderon gyda'r uwch-fydwraig sydd â chyfrifoldeb dros faterion diogelu a bydd raid ceisio cymorth i lywio cynllun cyn geni a chytuno arno. |
| **Diogelwch** | Yn unol â chanllawiau diogelwch yr ysbyty:<br><br>Rhoi band adnabod ar y babi ar ôl iddo gael ei eni. Clymu tag diogelwch i'r babi wrth iddo gyrraedd y ward ar ôl geni.<br><br>**Mam/rhieni i gael gwybod am eu cyfrifoldeb i gadw'r babi yn ddiogel. (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf)** |

| | |
|---|---|
| | ****Cynnwys gwybodaeth ychwanegol am unrhyw unigolion sydd â'r potensial i fod yn fygythiad i ddiogelwch**.** |
| **Arsylwi sgiliau rhianta** | Gwasanaethau Bydwreigiaeth a staff y Gwasanaethau Mamolaeth i gefnogi, monitro a nodi'r ffordd mae rhieni yn ymddwyn o gwmpas y babi ac yn rhoi gofal i'r babi yn y cofnodion mamolaeth.<br><br>Rhoi gwybod i'r Gwasanaethau i Blant am unrhyw bryderon ynglŷn â sgiliau/gallu rhianta. |
| **Cyfarfod cynllunio cyn rhyddhau'r babi o'r ysbyty** | **Peidio â rhyddhau'r babi o'r uned famolaeth nes bod cyfarfod cynllunio cyn rhyddhau'r babi o'r ysbyty yn cael ei gynnal, neu nes eich bod chi'n cael cyfarwyddyd gan y Gwasanaethau i Blant.**<br><br>O safbwynt babanod sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, rhaid trefnu cyfarfod cynllunio cyn rhyddhau'r babi o'r ysbyty cyn gynted ag y bo modd |

**Manylion cyswllt allweddol:**

| | **Enw** | **Rhif ffôn** |
|---|---|---|
| Gweithiwr Cymdeithasol: | | |
| Bydwraig Gymunedol: | | |
| Bydwraig Ddiogelu: | Fiona James | 07388950232 |

Ymwelydd Iechyd:

**Cynllun geni wedi'i gwblhau gan:**

| | **Enw** | **Rhif ffôn** |
|---|---|---|
| Gweithiwr Cymdeithasol: | | |
| Fersiwn: | | |
| **Dyddiad:** | | |